| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **02 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL** | **Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2023/24** |
| **PWRPAS** | **Yn dilyn cais cyfarfod 30/09/2024** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

## 1 Balansau Ysgolion

1.1 Atodir er gwybodaeth balansau ysgolion unigol 31/03/2024 ynghyd â gwerth y balansau fel canran o'r dyraniad terfynol am 2023/24 yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf. Dyma grynodeb –

| | Dyraniad Terfynol 2023/24 | Balansau 31/03/2024 | Balansau 31/03/2024 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|
| CYNRADD | £40,909,445 | £4,980,580 | 12.17% |
| DILYNOL | £6,563,497 | £811,962 | 12.37% |
| UWCHRADD | £39,809,207 | £2,161,056 | 5.43% |
| ARBENNIG | £5,126,570 | £588,473 | 11.48% |
| CYFANSWM | £92,408,719 | £8,542,070 | 9.24% |

1.2 Bellach mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y sefyllfa yng Nghymru. Dyma linc i'r datganiad –

Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2024 | LLYW.CYMRU

Hoffwn dynnu eich sylw yn benodol i lefel diffygion ymysg ysgolion Cymru, sef £39.5miliwn, gydag ysgolion Gwynedd yn £0.6miliwn o hyn.

Mae lleihad o £94miliwn ym malansau rhwng Mawrth 2023 a Mawrth 2024 sy'n dangos yr un patrwm a'r hyn ydan ni yn weld yng Ngwynedd a gyda rhagolwg o leihaf pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

1.3 Bydd swyddogion addysg a cyllid yn parhau i weithio gyda'r ysgolion i fonitro'r sefyllfa.